**PET(4)-05-11 Papur 15a**

## P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus

## Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r effeithiau posibl ar iechyd a lles cymdeithasol a allai ddeillio o gau toiledau cyhoeddus, ac yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus.

**Linc i'r ddeiseb:**
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=887

**Cynigwyd gan:** Y Cynghorydd Louisa Hughes

**Nifer y llofnodion:** 430

**Gwybodaeth ategol:**

**Cyflwr toiledau cyhoeddus yng Nghymru**

O waith ymchwil a wnaed gan Age Cymru yng Ngwanwyn 2010, gofynnwyd y cwestiwn canlynol i 434 o bobl hŷn ar draws Cymru, gyda chynrychiolaeth o bob awdurdod lleol:

**'Pa mor dda yw'r mynediad i doiledau cyhoeddus yn eich ardal leol chi? A ydynt yn ddiogel ac o safon uchel?'**

- 3 allan o 10 yw'r raddfa a roddwyd i doiledau cyhoeddus ar gyfartaledd gan 434 o bobl hŷn ar draws Cymru
- Rhoddodd 31 y cant (134 o'r 434) raddfa o 0 allan o 10 i doiledau cyhoeddus
- Rhoddodd 41 y cant (177 o'r 434) raddfa o 0 neu 1 allan o 10 i doiledau cyhoeddus
- Rhoddodd 54 y cant o bobl hŷn raddfa o 3 neu lai (allan o 10) i doiledau cyhoeddus yn eu hardal.
- Rhoddodd 61 y cant o bobl hŷn raddfa o lai na 5 allan o 10 i doiledau cyhoeddus yn eu hardal.
- Dim ond 3 y cant (12 o bobl o'r 434) roddodd raddfa o 10 allan o 10 i doiledau cyhoeddus yn eu hardal

**Mae adroddiad Nowhere to Go ar gau toiledau cyhoeddus yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Help the Aged yng Nghymru ym mis Ionawr 2009 yn nodi bod:**

1. 95 y cant o’r rhai a ymatebodd wedi canfod nad yw eu toiledau cyhoeddus lleol ar agor pan fydd eu hangen;
2. 79 y cant o’r rhai a ymatebodd yn ei chael yn anodd dod o hyd i doiled cyhoeddus;
3. 62 y cant o’r rhai a ymatebodd yn cytuno bod y diffyg toiledau cyhoeddus yn eu hardal yn eu rhwystro rhag mynd allan mor aml ag y byddent yn dymuno;
4. dywedodd 78 y cant o’r rhai a ymatebodd i’r arolwg nad yw’r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn eu hardal yn bodloni’u hanghenion;
5. caiff 80 y cant o’r rhai a ymatebodd eu hanesmwytho’n aml gan y diffyg glanweithdra yn eu toiledau cyhoeddus lleol;
6. mae 84 y cant o’r rhai a ymatebodd yn canfod bod pryderon ynghylch diogelwch yn gwneud toiledau cyhoeddus yn annymunol;
7. teimlai 87 y cant o’r rhai a ymatebodd i’r arolwg y dylai siopau a busnesau wneud mwy o ymdrech i ddarparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus;

**Llywodraeth Cynulliad Cymru:** Mae **Ffocws Ystadegol ar Oedran yng Nghymru** yn nodi bod 1 o bob 4 person yn 60 oed neu’n hŷn yn 2009. Fodd bynnag, erbyn 2030, bydd 1 o bob 3 person yn 60 oed neu’n hŷn.